

Andrew Jarrett
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Iechyd a Thai
Castell-nedd Port Talbot
Canolfan Ddinesig,
Castell-nedd,

Dyddiad: 10 Hydref 2024

Annwyl Mr Jarrett,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Gwiriad Sicrwydd o Wasanaethau Oedolion Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein gwiriad sicrwydd ar 17 – 19 Medi 2024. Diben y gwiriad sicrwydd oedd adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol wrth arfer eu dyletswyddau a'u swyddogaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl.

Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau mewn perthynas â'r egwyddorion hyn, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

Pobl – llais a rheolaeth

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

Atal

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf, ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

I ba raddau y mae oedolion yn cael gofal a/neu gymorth mewn modd amserol?

Sut y caiff rhestrau aros eu rheoli, er mwyn lleihau'r effaith ar y bobl a'u gofalwyr?

Llesiant

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

I ba raddau y mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl?

Partneriaeth

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

Terminoleg a Diffinio Meintiau

Mae geirfa o derminoleg yn atodiad un a thabl diffinio meintiau yn atodiad dau.

1. Crynodeb o Wiriad Sicrwydd

1.1 Mae gwasanaethau oedolion yn elwa ar arweinwyr gweladwy a hygyrch. Mae'r staff yn disgrifio goruchwyliaeth amserol ac o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion datblygu. Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig am eu gwaith ac mae diwylliant o ddysgu wedi'i ymgorffori.

- 1.2 Nod y tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yw sicrhau diogelwch cyfreithiol priodol i unigolion. Mae'r arweinwyr yn gweithio gydag ymarferwyr i ddatblygu a gwella systemau ar gyfer nodi ac asesu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid mewn ffordd amserol a chadarn.
- 1.3 Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i'r rhan fwyaf o'r ymholiadau diogelu mewn ffordd amserol a chymesur. Mae cydweithio effeithiol ymhlith partneriaid i'w weld wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg, gyda chyfarfodydd strategaeth yn annog her broffesiynol.
- 1.4 Nid yw pobl yn cael profiad cyson o gynllunio gofal sy'n seiliedig ar gryfderau. Byddai asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau yn elwa ar ffocws cynyddol ar lais pobl a'u canlyniadau personol.
- 1.5 Nid oes digon o dystiolaeth o sicrwydd ansawdd cyson sy'n arwain at arferion a chanlyniadau gwell i bobl.
- 1.6 Mae ymarferwyr, pobl a gofalwyr yn disgrifio gwasanaethau cyfyngedig yn y gymuned sy'n diwallu anghenion llesiant cyfannol pobl. Ceir diffyg cyswllt rhwng y safbwyntiau strategol ar y gwasanaethau ataliol sydd ar gael ac ansawdd y gwasanaethau hynny, a phrofiadau staff a phobl.
- 1.7 Mae gofalwyr yn rhoi gwybod am anawsterau wrth gael gafael ar gymorth, a cheir amrywiaeth o ran ansawdd ac amseroldeb asesiadau a gwasanaethau i ofalwyr. Mae angen dull mwy cyson ac amserol er mwyn cynnig ac ymgymryd ag asesiadau gofalwyr, gan sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed ac y caiff eu hanghenion eu diwallu.
- 1.8 Mae angen cryfhau partneriaethau ar lefelau amrywiol er mwyn sicrhau gwasanaethau integredig, o ansawdd uchel, gan arwain at ganlyniadau cadarnahol ar gyfer pobl. Mae cryfhau llais y bobl yn y fforymau hyn a gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth.

2. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pobl

Cryfderau

- 2.1 Caiff llawer o bobl eu trin ag urddas a pharch wrth gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.
- 2.2 Mae'r arweinwyr yn hygyrch, yn agos atoch, ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag ymarferwyr, gan feithrin amgylchedd cefnogol a chydlynol.
- 2.3 Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig am eu gwaith, a gwnaeth bron pob un ddisgrifio'u cydweithwyr a'u rheolwyr fel pobl gefnogol. Mae'r staff yn falch o'u hymarfer ac o'r gwaith maent yn ei wneud i ddiogelu a chefnogi llesiant pobl.
- 2.4 Mae ymarferwyr yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd. Ceir digon o gyfleoedd i fyfrio a dysgu drwy fentrau fel amser dysgu gwarchodol, lle mae gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol yn cynnig cymorth i weithwyr cymdeithasol gan roi amser dynodedig i fyfrio ar eu hymarfer, gan helpu i wneud penderfyniadau a hwyluso cynnydd.
- 2.5 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr wrthym y gallant fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant priodol pan fo angen. Mae gan y tîm Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd ystod o fentrau i gefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i adolygu systemau gan gymheiriaid a goruchwyliaeth grŵp a mentrau fel y prosiect 'Hyrwyddo Ymchwil'.
- 2.6 Mae tystiolaeth bellach o'r diwylliant o ddysgu ac ymgorffori arferion cadarnhaol yn y llawlyfr 'A-Z of practice', sy'n cynnig map ffordd i weithwyr cymdeithasol proffesiynol drwy amlinellu'r systemau a'r prosesau sy'n sail i ymarfer. Mae'r llawlyfr yn gyfuniad o arferion da, gweithdrefnau safonol a llwybrau gofal effeithiol.

Meysydd i'w Gwella

- 2.7 Mae'r staff yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant maent wedi'i gael ar arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae dull CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) a seiliedig ar gryfderau yn sicrhau y caiff lleisiau'r bobl a'u gofalywyr eu clywed mewn asesiadau a chynlluniau. Nid yw pobl a gofalywyr yn profi dull seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar unigolion cyson mewn perthynas â chynllunio gofal. Mae ansawdd yr asesiadau, y cynlluniau a'r adolygiadau yn amrywiol. **Yn unol â'r Cod Ymarfer, Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), rhaid i asesiadau gynnwys y pum elfen allweddol ac adlewyrchu sgysiau sy'n seiliedig ar**

gryfderau a gynhelir â phobl er mwyn nodi beth sy'n bwysig iddynt. Dylai arweinwyr sicrhau bod ansawdd asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau yn cael eu sicrhau mewn modd cyson ac ystyrlon er mwyn gwella ansawdd.

- 2.8 Roedd y sampl o ofalwyr anffurfiol y gwnaethom siarad â nhw yn fach, o gofio mai Castell-nedd Port Talbot sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr anffurfiol yng Nghymru. Serch hynny, gwelsom faterion systemig a fyddai'n cael effaith ar y boblogaeth ehangach o ofalwyr anffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys anawsterau wrth gael gafael ar gymorth ac ansawdd newidiol, hygyrchedd ac amseroldeb asesiadau, adolygiadau a gwasanaethau. Dywedodd y gofalwyr wrthym eu bod eisiau gwasanaethau sy'n gwrando arnynt ac yn blaenoriaethu eu hanghenion mewn ffordd ystyrlon ac arbenigol. **Dylai'r awdurdod lleol weithio gyda gofalwyr i feithrin dealltwriaeth well o'u profiad bywyd a sicrhau bod datblygiadau pellach i wasanaethau yn diwallu eu hanghenion.**
- 2.9 Nid yw gofalwyr yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion yn gyson ac mae rhestrau aros ar gyfer yr asesiadau sydd i'w cynnal. **Rhaid i'r awdurdod lleol asesu'n fwy cyson yn unol â chanllawiau statudol a oes gan ofalwr anghenion cymorth (neu a yw'n debygol y bydd ganddo anghenion o'r fath yn y dyfodol) ac os felly, beth yw'r anghenion hynny neu'r anghenion tebygol hynny.**
- 2.10 Dywedodd yr ymarferwyr wrthym y gallant gael eiriolaeth i bobl a byddant yn trefnu hyn pan fo'n briodol. Fodd bynnag, ni chafodd eiriolaeth ei hystyried a'i chynnig yn gyson o fewn y cofnodion gofal cymdeithasol yr edrychwyd arnynt. Mae'n hynod bwysig bod y cynnig hwn yn cael ei wneud yn ystod ymholiadau diogelu a/neu pan fydd galluedd rhywun yn cael ei asesu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff pwysigrwydd eiriolaeth ei deall gan bob ymarferwr ac y caiff eiriolaeth ffurfiol ei chynnig, ei chomisiynu a'i darparu pan fo'n ofynnol.**

Atal

Cryfderau

- 2.11 Mae llawer o bobl yn ystyried bod y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth gywir ac amserol, sy'n eu helpu i ddeall prosesau, cael gafael ar wasanaethau, a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- 2.12 Ers 2021, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud ymdrech i wella gwasanaethau helpu ac atal yn gynnar. Ymhlith y cynlluniau i'r dyfodol mae sefydlu mwy o

ganolfannau cymunedol, gwella mynediad i dechnolegau digidol ac ail-saerïo timau i wneud cymorth yn fwy hygyrch. Yn ogystal, bydd prosiect ymchwil yn arwain yr awdurdod lleol i symud y ffocws o ymyriad mewn argyfwng i atal, cymorth cymunedol a help cynnar.

Meysydd i'w Gwella

- 2.13 Nid yw rhai pobl ac ymarferwyr yn ymwybodol o ba wasanaethau cymunedol sydd ar gael. Mae angen strategaethau cyfathrebu gwell i bontio'r bwlch rhwng y gwasanaethau sydd ar gael ac ymwybyddiaeth pobl ac ymarferwyr. **Dylai arweinwyr sicrhau y caiff strategaethau cyfathrebu eu gwella er mwyn rhoi gwybod i ymarferwyr a phobl pa wasanaethau cymorth sydd ar gael yn eu cymuned.**
- 2.14 Caiff gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau'r trydydd sector sy'n mynd i'r afael ag anghenion llesiant cyfannol eu hystyried yn gyfyngedig gan ymarferwyr, pobl a gofalwyr. Mae staff a rheolwyr wedi rhoi gwybod bod colli'r Tîm Annibyniaeth Cymunedol wedi lleihau arlwy'r cymorth ataliol i bobl a gofalwyr i raddau sylweddol. **Dylai'r Awdurdod Lleol gydweithredu, gweithio ar y cyd a gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys byrddau iechyd a'r trydydd sector, er mwyn datblygu a chyflawni'r ystod o wasanaethau ataliol ac ymyriad cynnar integredig sy'n ofynnol a lefel y gwasanaethau hynny.**
- 2.15 Ni chaiff taliadau uniongyrchol eu cynnig yn gyson a cheir oedi wrth gael gafael ar daliadau uniongyrchol o'r pwynt atgyfeirio. Mae staff a phobl yn cael rhwystrau gyda meini prawf a phroses taliadau uniongyrchol yr awdurdod lleol. Dywedodd un gofalwr wrthym "*We have got direct payments but the whole journey was stressful with lack of communication, a lot of hoop jumping and box ticking and no real support.*" **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff taliadau uniongyrchol eu cynnig yn gyson, ac y caiff pobl ddigon o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Dylai'r arweinwyr adolygu a sicrhau ansawdd ymarfer, er mwyn hyrwyddo mynediad amserol a chyfiawn.**

Llesiant

Cryfderau

- 2.16 Mae'r tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn trefnu bod ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael eu dyrannu, eu hasesu

a'u hawdurdodi gan arwain at roi diogelwch cyfreithiol amserol a phriodol i'r bobl a gyda'r cyfle i herio'r broses amddifadu.

- 2.17 Mae nifer y ceisiadau i amddifadu unigolion o'u rhyddid y mae'r awdurdod lleol yn eu cael yn gymesur o uchel o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae gan yr awdurdod lleol system gadarn o hysbysu awdurdodau sy'n rheoli pan fydd adnewyddiadau'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ddyledus a dylai barhau i weithio gydag awdurdodau rheoli i sicrhau bod ceisiadau yn parhau i fod yn amserol pan fydd angen amddifadu rhywun o'i ryddid.
- 2.18 Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i'r rhan fwyaf o ymholiadau diogelu mewn ffordd amserol a chymesur. Yn yr enghreifftiau gorau, gwelsom gydwethredu effeithiol ymhlith partneriaid wrth lunio cynlluniau rheoli risg. Gwnaeth cyfarfodydd strategaeth hyrwyddo heriau proffesiynol adeiladol a chreu cynlluniau diogelwch sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn naratif y person cyntaf.
- 2.19 Dywedodd y staff wrthym am y cydweithio a'r cyfathrebu rhwng y timau diogelu a'r timau cymunedol eraill. Mae hyn yn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli mewn modd amserol, a chymorth amserol i'r bobl yn y gymuned.

Meysydd i'w Gwella

- 2.20 Nid oedd digon o dystiolaeth o oruchwyliaeth gan reolwyr a sicrhau ansawdd asesiadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a gwneud penderfyniadau lles pennaf. Er bod rhai archwiliadau o ffeiliau achos wedi'u cwblhau, mae hyn yn anghyson ar draws timau. Mae gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol a dirprwy reolwyr tîm sy'n chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau ansawdd, yn wynebu beichiau cystadleuol ar eu hamser, gan gynnwys cyfrifoldebau rheoli achosion. Mae hyn yn effeithio ar brydlondeb a chysondeb trefniadau sicrhau ansawdd. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau prosesau goruchwyllo reolwyr a sicrhau ansawdd o asesiadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a gwneud penderfyniadau lles pennaf er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.**
- 2.21 Nid yw llais yr unigolyn sy'n wynebu risg a'u rhwydwaith cymorth yn ddigon clir yn ystod ymholiadau diogelu. Ni roddir digon o ystyriaeth ychwaith o ran a fyddai rhywun yn elwa ar eiriolaeth ffurfiol neu anffurfiol yn ystod y prosesau diogelu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod llais y bobl yn ganolog i'r ymholiadau diogelu, yn ogystal â'r trefniadau i reoli risg.**

- 2.22 Ni chaiff asesiadau, penderfyniadau na chanlyniadau diogelu eu cofnodi'n gyson, a bydd rhai asesiadau'n cael eu hoedi yn sgil aros am wybodaeth gan asiantaethau partner. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod arferion diogelu yn bodloni gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn gyson. Dylai arweinwyr hefyd sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd digonol ar waith i hyrwyddo arferion gorau, gan sicrhau bod yr holl asesiadau, penderfyniadau a chanlyniadau diogelu'n cael eu cofnodi'n glir, eu cyflawni a'u rhannu mewn modd amserol.**
- 2.23 Mae amrywiaeth yng ngwybodaeth yr ymarferwyr a'r broses o gymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Er bod yr awdurdod lleol wedi darparu hyfforddiant a bod ganddo gyfres o brosesau a pholisïau hygyrch ar waith, nid yw'r wybodaeth wedi'i hymgorffori'n llawn ar draws yr ymarfer. **Dylai'r awdurdod lleol wella gwybodaeth yr ymarferwyr a'r gwaith o gymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn i'r ymarfer fodloni ei ddyletswyddau statudol yn gyson, yn unol â'r Ddeddf.**
- 2.24 Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol wrth nodi sefyllfaoedd lle mae gan unigolion ddiffyg galluedd a'u bod wedi'u hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau cymunedol, ond nid yw pobl yn cael profiad o gymwysiadau amserol i'r Llys Diogelwch oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau. **Rhaid i ymarferwyr ac awdurdodau sy'n rheoli fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn a bod yn ymatebol iddynt, er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn y gymuned yn cael eu diogelu'n briodol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddynodi ac asesu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid cymunedol.**

Partneriaeth

Cryfderau

- 2.25 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gydag iechyd a phartneriaid i gael cyfarfodydd ward rhithwir bob wythnos. Mae hyn yn dangos gweithio mewn partneriaeth effeithiol, meithrin cyd-ddealltwriaeth a chydweithredu ar draws gwasanaethau. Drwy gynnwys practisiau meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, sefydliadau trydydd sector a therapyddion iechyd galwedigaethol, mae'n sicrhau bod yr adnoddau yn gyson ag anghenion y bobl. Mae'r dull cydweithredol yn gwella cymorth cymunedol ac yn hyrwyddo arloesedd a hyblygrwydd trefniadol. Mae gallu'r system i hwyluso atgyfeiriadau effeithlon yn dangos gwerth gwell am arian, wrth i rannu dysgu ac arbenigedd yn rheolaidd annog gwelliant parhaus. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

2.26 Rhaid paratoi a chynllunio'n gynnar er mwyn pontio o'r gwasanaethau plant i oedolion wrth reoli disgwyliadau a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth dda a'u bod yn cael eu grymuso. Mae gan yr awdurdod lleol staff pontio yn y Tîm Anableddau Cymhleth sy'n sicrhau gwaith cynllunio a pharatoi yn gynnar. Maent yn hyrwyddo llwybrau clir ac **arferion cadarnhaol** sy'n magu hyder ac annibyniaeth i bobl ifanc yn ystod eu cyfnod pontio.

Meysydd i'w Gwella

2.27 Mae partneriaethau strategol, rhanbarthol a gweithredol yn gofyn am ddatblygiad pellach i ddiwallu angen y boblogaeth mewn ffordd gydweithredol. Mae arweinwyr yn disgrifio'r dull anghydlynol o wneud penderfyniadau yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r lefelau integreiddio gweithredol isel gyda chydweithwyr iechyd. Mae hyn yn effeithio ar brydlondeb ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl. **Dylai arweinwyr gryfhau llais y bobl yn y fforymau hyn a pharhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y cynlluniau a rennir yn diwallu anghenion y boblogaeth.**

3. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

4. Methodoleg

Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 20 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom adolygu 15 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pump.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweiliadau â 12 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr.

- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweiliadau, â 21 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, Pennaeth/Penaethiaid Gwasanaeth)
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddsbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn <https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>.

5. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn, Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at y gwiriad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

6. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru

Atodiad 1

Rhestr Terminoleg

Term	Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau
Rhaid	Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu.
Dylai	Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.
Ymarfer cadarnhaol	Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.
Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu.
Llais a Rheolaeth	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.
Llesiant	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.

Cydgynhyrchu	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.
Gwaith amlasiantaethol	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.
Yr hyn sy'n bwysig	Mae sgysiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed.

Atodiad 2

Tabl Diffinio Meintiau

Terminoleg	Diffiniad
Bron pob un	Gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	Dros 60%
Hanner	50%
Tua hanner	Yn agos i 50%
Lleiafrif	Llai na 40%
Nifer bach	Llai nag 20%
Nifer bach iawn	Llai na 10%